Ministry of Justice

# Adolygiad o'r bôn i'r brig o'r system parôl

## Ymgynghoriad cyhoeddus ar wneud rhai gwrandawiadau parôl yn agored i ddioddefwyr troseddau a'r cyhoedd

Cychwynna'r ymgynghoriad hwn ar 20 Hydref 2020

Daw'r ymgynghoriad hwn i ben ar 1 Rhagfyr 2020

Ministry of Justice

Ministry of Justice

# Adolygiad o'r bôn i'r brig o'r system parôl

Ymgynghoriad cyhoeddus ar wneud rhai gwrandawiadau parôl yn agored i ddioddefwyr troseddau a'r cyhoedd

**Ymgynghoriad a gynhyrchwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Gellir ei gyrchu hefyd yn**

**https://consult.justice.gov.uk/**

# Parthed yr ymgynghoriad

| | |
|---|---|
| **I:** | Mae'r ymgynghoriad wedi'i anelu'n bennaf at ddioddefwyr troseddau a gweithwyr proffesiynol sydd â gwybodaeth a phrofiad o'r broses parôl. Fodd bynnag, croesawn farn unrhyw un a hoffai gyfrannu. |
| **Hyd:** | Rhwng 20/10/20 – 01/12/20 |
| **Ymholiadau (gan gynnwys ceisiadau am y papur mewn fformat amgen) at:** | Polisi Mechnïaeth, Dedfrydu a Rhyddhau<br>Y Weinyddiaeth Gyfiawnder<br>102 Petty France, Pwynt posti 10.21<br>Llundain SW1H 9AJ<br><br>E-bost: paroleboardreview@justice.gov.uk |
| **Sut i ymateb:** | Os gwelwch yn dda, gyrrwch eich hymatebion erbyn 01/12/20 i:<br><br>Polisi Mechnïaeth, Dedfrydu a Rhyddhau<br>Y Weinyddiaeth Gyfiawnder<br>102 Petty France, Pwynt posti 10.21<br>Llundain SW1H 9AJ<br><br>E-bost: paroleboardreview@justice.gov.uk<br><br>**Ffafriwn ymatebion drwy e-bost.** |
| **Papur ymateb:** | Disgwylir i ymateb i'r ymgynghoriad hwn gael ei gyhoeddi erbyn 31 Rhagfyr 2020 yn: https://consult.justice.gov.uk/ |

# Cynnwys

**Crynodeb gweithredol** Error! Bookmark not defined.

**Cyflwyniad** Error! Bookmark not defined.

**Opsiynau ar gyfer diwygio** Error! Bookmark not defined.

A yw’r trefniadau presennol yn ddigonol? 6

A ddylai gwrandawiadau parôl fod yn agored i'r cyhoedd? 8

A ddylai gwrandawiadau parôl yn agored i ddioddefwyr yn unig? 11

Ystyriaethau ymarferol 13

**Holiadur** Error! Bookmark not defined.

**Amdanoch chi** Error! Bookmark not defined.

**Manylion cyswllt/sut i ymateb** **18**

Cwynion neu sylwadau 18

Copïau ychwanegol **Error! Bookmark not defined.**

Cyhoeddi ymateb 18

Grwpiau cynrycholiadol 18

Cyfrinachedd 19

**Cydraddoldeb a’r Iaith Gymraeg** Error! Bookmark not defined.

**Egwyddorion ymgynghori** Error! Bookmark not defined.

# Crynodeb Gweithredol

1. Yr ymgynghoriad hwn yw'r cam cyntaf o fewn adolygiad o'r bôn i'r brig y llywodraeth o'r system parôl. Yr adolygiad hwn fydd penllanw'r gwaith o archwilio'r system parôl a'i ddiwygio. Cychwynnodd y gwaith yn 2018 yn dilyn i'r Uchel Lys ddiddymu penderfyniad y Bwrdd Parôl i ryddhau John Worbys.

2. Ffocws y diwygiadau hyd yma – ac un o amcanion allweddol yr adolygiad o'r bôn i'r brig – yw gorchfygu'r pryderon a godwyd ynghylch diffyg tryloywder y system parôl a diffyg hyder ynddo. Yn 2018, fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus ar greu mecanwaith ail ystyried newydd, ceisiwyd safbwyntiau ynghylch a ddylai ail ystyriaethau gael eu clywed yn gyhoeddus. Ar yr achlysur hwnnw, lleisiodd nifer o ymatebwyr eu pryderon ynghylch dull gweithredu o'r fath a phenderfynwyd yn erbyn caniatáu gwrandawiadau cyhoeddus. Fodd bynnag, credwn ei bod addas i'r adolygiad o'r bôn i'r brig ail ystyried y cwestiwn hwn. Fel cam cyntaf yn y broses o ail ofyn y cwestiwn hwnnw, mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio safbwyntiau ynghylch yr opsiynau.

3. Ers blynyddoedd lawer, roedd y system ar gyfer gwneud penderfyniadau parôl yn gwbl gaeedig a gwaharddwyd y Bwrdd Parôl rhag datgelu unrhyw wybodaeth am yr achosion yr oeddent yn eu hystyried a'u penderfyniadau. Fodd bynnag, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, cafwyd diwygiadau wedi'u hanelu at wella tryloywder y broses parôl yn ogystal â galluogi'r Bwrdd Parôl i gyfiawnhau eu penderfyniadau. Yn y cyd-destun hwnnw, mae camau arwyddocaol wedi'u cwblhau ers 2018, gan gynnwys cyflwyno crynodebau o benderfyniadau. Mae'r crynodebau y rheiny'n darparu eglurhad i ddioddefwyr, y cyfryngau a'r cyhoedd dros benderfyniadau parôl unigolion. Profwyd y crynodebau hyn yn ddefnyddiol a phoblogaidd a chynhyrchwyd dros 3,500 ohonynt a hynny ar gyfer dioddefwyr yn bennaf. Caniatâ'r rheolau arsylwyr i fynychu gwrandawiadau, yn ôl disgresiwn cadeirydd y panel, ac mae'r Bwrdd Parôl wedi ceisio defnyddio'r pŵer hwn i sicrhau mwy o dryloywder. Enghraifft o'r ffyrdd yr aethpwyd ati i wneud hyn yw caniatáu'r cyfryngau i arsylwi rhai gwrandawiadau. Mae'r Bwrdd hefyd wedi cymryd camau i godi ymwybyddiaeth o'i rôl drwy ryngweithio â'r cyfryngau, gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol a thrwy gyhoeddi eu penderfyniadau ar-lein yn dilyn ail ystyriaeth.

4. Credwn y dylem ystyried o ddifri a oes modd gwneud gwelliannau pellach a fyddai'n creu system parôl fwy diffuant. Y cam cyntaf yn yr adolygiad o'r bôn i'r brig oedd archwilio'r posibilrwydd o wneud gwrandawiadau parôl penodol yn agored i ddioddefwyr troseddau a'r cyhoedd. Er nad yw adolygiad parôl yn dreial troseddol, byddai gwireddu'r opsiwn hwn yn gyson â'r egwyddor o "gyfiawnder agored" sy'n sylfaen bwysig i'n system gyfiawnder troseddol.

5. Dylid nodi bod y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Iechyd Meddwl) eisoes yn caniatáu gwrandawiadau cyhoeddus mewn nifer cyfyngedig iawn o achosion. Y farn gyffredinol yw y dylai'r gwrandawiadau tribiwnlys hyn, fel gwrandawiadau parôl, gael eu clywed yn breifat. Fodd bynnag, mae amodau sy'n caniatáu gwrandawiad cyhoeddus lle ystyrir bod hynny'n angenrheidiol er budd cyfiawnder. Mae'r Tribiwnlys Iechyd Meddwl yn debyg i'r Bwrdd Parôl mewn sawl ffordd, yn enwedig gan ei fod yn penderfynu a ddylai troseddwr sydd wedi cyflawni trosedd ddifrifol iawn barhau i gael ei gadw mewn amodau diogel neu a ellir ei ryddhau. Wrth weithredu'r swyddogaeth honno, clywant wybodaeth bersonol sensitif ynghylch y cleifion a dioddefwyr eu gweithredoedd.

6. Cynhaliwyd gwrandawiadau'r Bwrdd Parôl yn breifat erioed ac erys rhesymau da dros hyn. Mae'n rhaid i'r Bwrdd archwilio tystiolaeth gymhleth a manwl ynghylch bob agwedd o'r achos. Mae hyn yn cynnwys manylion y drosedd, cefndir y troseddwr, y gwaith lleihau perygl a gwblhawyd yn y ddalfa, yr asesiad presennol o'u risg a'r cynlluniau ar gyfer rhyddhau ar drwydded. Mewn rhai achosion, gall y Bwrdd hefyd dderbyn gwybodaeth feddygol neu ddeallusrwydd gan yr heddlu neu wasanaethau diogelwch. Bydd llawer o wybodaeth bersonol sensitif am y troseddwr yn ogystal â dioddefwr y drosedd o fewn y dystiolaeth ac felly mae'n bwysig ystyried yn ofalus sut y gellir diogelu gwybodaeth breifat o'r fath.

7. Wrth benderfynu a ddylid caniatáu dioddefwyr a'r cyhoedd i arsylwi gwrandawiadau, rydym yn cydnabod bod angen sicrhau cydbwysedd rhwng y dyhead am fod yn agored a hawl y rhai sy'n cyfranogi mewn gwrandawiadau i breifatrwydd. Credwn ei bod yn gyfiawn mynd ati mewn modd graddol a gofalus i gynnal gwrandawiadau parôl cyhoeddus, o ystyried y peryglon a'r cymhlethdodau posib os na sicrheir y cydbwysedd cywir hwn. Teimlwn ei bod yn bwysig ymgynghori ar y mater hwn nawr oherwydd rydym yn cydnabod nad yw'n gwestiwn syml a bydd yn ennyn sawl safbwynt gwahanol. Bydd cael ystod eang o safbwyntiau yn werthfawr o ran nodi holl fanteision a heriau posibl cynnal gwrandawiadau cyhoeddus a bydd yn galluogi'r llywodraeth i wneud penderfyniad gwybodus.

8. Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i'r Bwrdd Parôl ystyried addasrwydd rhyddhau carcharorion sydd wedi cyflawni rhai o'r troseddau mwyaf difrifol a niweidiol. Nid yw felly'n anghyffredin i penderfyniad o blaid rhyddhau carcharor o'r fath gael ei feirniadu'n ffyrnig, fel ymateb dealladwy i ddifrifoldeb eu troseddau. Prin yw'r aelodau o'r cyhoedd sy'n gwerthfawrogi bod penderfyniad y Bwrdd yn llwyr seiliedig ar p'un a yw'r unigolyn hwnnw'n parhau i fod yn risg sylweddol i'r cyhoedd, a'r ffaith y gallai'r sawl sy'n ymddangos gerbron y Bwrdd fod wedi newid yn y blynyddoedd ers cyflawni eu troseddau.

9. Er mwyn i'r cyhoedd fod â hyder ym mhenderfyniadau'r Bwrdd mae'n bwysig deall nad yw eu penderfyniadau yn ymwneud ag a yw troseddwyr yn haeddu parhau i gael eu cosbi am eu troseddau neu beidio. Mae hefyd yn bwysig gwerthfawrogi bod cosb y ddedfryd a bennwyd gan y llys wedi'i chwblhau erbyn hynny. Golyga hyn y dylid rhyddhau'r troseddwr os yw'n ddiogel iddynt barhau i wasanaethu eu dedfryd yn y gymuned yn amodol ar amodau trwydded a goruchwyliaeth y gwasanaeth prawf.

10. Credwn y gallai gwrandawiadau cyhoeddus wella hyder y cyhoedd yn y system parôl a’u dealltwriaeth ohono, drwy ddangos pa mor ddiwyd yw’r Bwrdd Parôl a datgelu mwy o wybodaeth am sut a pham y gwnânt benderfyniadau. Fodd bynnag, mae'r llywodraeth yn cydnabod cymhlethdod y mater a dyna pam yr ydym wedi penderfynu ymgynghori arno.

11. Byddem yn gwerthfawrogi eich barn ynghylch a ddylai dioddefwyr a'r cyhoedd ehangach gael arsylwi gwrandawiadau parôl, y mathau o amgylchiadau ac achosion lle gallai gwrandawiad cyhoeddus fod yn briodol a'ch barn ar sut y gallem osgoi peryglon posibl a chanlyniadau andwyol cynnal gwrandawiad yn gyhoeddus. Credwn y byddai'n gyfiawn parhau i gynnal y mwyafrif o wrandawiadau parôl yn breifat ond credwn ei bod hefyd yn bwysig archwilio sut y gellir caniatáu rhai gwrandawiadau cyhoeddus.

12. Dim ond un agwedd ar yr adolygiad o’r bôn i’r brig yw’r ymgynghoriad ynghylch a ddylid caniatáu gwrandawiadau cyhoeddus. Yn ei gyfanrwydd, bydd yn edrych ar bedwar maes: i) gwerthusiad o’r diwygiadau parôl hyd yma, ii) cyfansoddiad a statws y Bwrdd Parôl, iii) gwella dealltwriaeth a hyder y cyhoedd yn y system parôl a iv) mesurau er mwyn gwella diffuantrwydd a thryloywder. Bydd yr holl agweddau eraill ar yr adolygiad yn cael eu datblygu ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn ar wrandawiadau cyhoeddus. Bydd y gwaith adolygu yn parhau yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, gan dynnu ar ei gasgliadau gyda'r nod o ganfod amryw ffyrdd o greu system fwy diffuant a thryloyw.

13. Rydym yn rhagweld cyhoeddi ymateb i'r ymgynghoriad hwn erbyn diwedd 2020 ac yna bydd yr adolygiad yn parhau ac yn dod i ben erbyn haf 2021.

# Cyflwyniad

14. O fewn y papur hwn ceir ymgynghoriad ar deilyngdod diwygio Rheolau’r Bwrdd Parôl mewn modd a fyddai’n caniatáu dioddefwyr trosedd a’r cyhoedd i fynychu gwrandawiadau parôl mewn nifer cyfyngedig o achosion. Mae'r ymgynghoriad wedi'i anelu'n bennaf at bobl sydd â phrofiad neu wybodaeth am broses y parôl, dioddefwyr troseddau, a chynrychiolwyr y cyfryngau yng Nghymru a Lloegr a allai fod ag unrhyw ddealltwriaeth neu farn wybodus ar y cwestiynau a ofynnir.

15. Y ddogfen hon yw’r fersiwn Cymraeg a addawyd o’r ddogfen ymgynghori

# Opsiynau ar gyfer diwygio

16. Cynhelir gwrandawiadau parôl yn breifat ar hyn o bryd a chredwn y dylai hyn barhau. Ni fyddai'n ymarferol i bob gwrandawiad parôl gael ei glywed yn gyhoeddus oherwydd natur y wybodaeth a drafodir mewn gwrandawiadau, graddfa'r gwaith, a'r anawsterau gweithredol y byddai'n eu creu. Ni chredwn chwaith y byddai'n angenrheidiol.

17. Dywed Rheol 15(3) o Reolau presennol y Bwrdd Parôl y dylid cynnal gwrandawiadau yn breifat. Nid yw hyn yn cynnig unrhyw hyblygrwydd na disgresiwn i’r Bwrdd Parôl ystyried a fyddai budd o gynnal gwrandawiad yn gyhoeddus. Nid yw gwrandawiadau yn llwyr gaeedig oherwydd caniatâ’r rheolau i arsylwyr fynychu yn ôl disgresiwn cadeirydd panel y Bwrdd Parôl. Mewn gwirionedd, mae’r rhain fel arfer wedi’u cyfyngu i weithwyr proffesiynol neu rywun sy’n cefnogi’r carcharor ond defnyddia’r Bwrdd Parôl eu disgresiwn i dderbyn eraill megis newyddiadurwyr a llunwyr polisi. Nid oedd canllawiau polisi arsylwi’r Bwrdd Parôl yn caniatáu i’r cyhoedd arsylwi gwrandawiadau ond mae’r canllawiau hynny bellach wedi’u hatal ac maent dan arolygaeth ar hyn o bryd. Ar hyn o bryd, gall dioddefwyr fynychu gwrandawiadau i ddarllen Datganiad Personol Dioddefwr, ond rhaid iddynt adael cyn i unrhyw dystiolaeth gael ei ddatgan.

18. Credwn y dylid ystyried dau opsiwn ar gyfer newid. Y cyntaf fyddai cynnal gwrandawiad cyhoeddus mewn achos lle cytunir ei fod yn briodol: h.y. heb unrhyw gyfyngiadau ar bwy allai arsylwi gan gynnwys dioddefwyr, y cyhoedd a'r cyfryngau. Mae’r ail opsiwn yn cynnig newid mwy cyfyngedig. Gallai dioddefwyr a ymunodd â'r Cynllun Cyswllt Dioddefwyr gael yr hawl i arsylwi’r gwrandawiad yn amodol ar fesurau diogelu a’r amodau. Fodd bynnag, byddai'n rhaid i arsylwyr posibl eraill, megis aelodau o'r cyfryngau, ddibynnu ar ddisgresiwn y fersiwn diweddaraf o bolisi canllawiau arsylwi’r Bwrdd Parôl.

19. Bydd canlyniad yr ymgynghoriad hwn yn llywio unrhyw newidiadau.

## A yw’r trefniadau presennol yn ddigonol?

20. Fel yr esboniwyd uchod, mae Rheolau’r Bwrdd Parôl 2019 eisoes yn caniatáu i eraill fynychu gwrandawiadau llafar fel arsylwyr, os cymeradwyir hynny gan gadeirydd y panel. Er enghraifft, gall dioddefwyr fod yn bresennol i ddarllen Datganiad Personol Dioddefwr ond ni allant aros ar gyfer y gwrandawiad llawn na chlywed unrhyw dystiolaeth fel arfer. Gall partïon y broses parôl (y carcharor neu’r Ysgrifennydd Gwladol) gyflwyno cais i gadeirydd y panel yn gofyn am hawl i arsylwr fynychu’r gwrandawiad. Fodd bynnag, fel arfer cyfyngir y rhain i bobl broffesiynol megis

swyddogion prawf dan hyfforddiant neu rywun sy'n cefnogi'r carcharor. Mae'r Rheolau hefyd yn caniatáu i'r Bwrdd Parôl dderbyn arsylwyr eu hunain heb gais gan y partïon. Maent wedi defnyddio'r pŵer hwnnw'n ddiweddar i ganiatáu i newyddiadurwyr fynychu gwrandawiad er mwyn ysgrifennu erthyglau papur newydd neu hysbysu rhaglenni radio am barôl. Mae llunwyr polisi a chynghorwyr arbennig gwleidyddol hefyd wedi'u derbyn yn y gorffennol.

21. Ers 2018 rydym hefyd wedi newid Rheolau'r Bwrdd Parôl er mwyn caniatáu crynodebau o benderfyniadau. Rydym hefyd wedi cyflwyno'r mecanwaith ailystyried sy'n caniatáu i'r partïon ofyn am adolygiad o'r penderfyniad parôl os yw'n ymddangos yn gyfreithiol neu'n weithdrefnol ddiffygiol. Gall dioddefwyr ofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud cais am ail ystyriaeth ar eu rhan a chyhoedda'r Bwrdd Parôl eu penderfyniadau ar lein yn dilyn eu hail ystyriaeth.

22. Mae egwyddorion cyfiawnder agored yn sefydlog a'u bwriad yw darparu gwrandawiad teg drwy amddiffyn unigolion rhag gweinyddu cyfiawnder yn gyfrinachol neu heb ei archwilio, fel y digwyddodd yn ystod degawdau cynnar y Bwrdd. Ni chredwn fod gwrandawiadau parôl yn gyfrinachol na chwaith heb eu harchwilio. Credwn bod y gwahanol fesurau a ddisgrifir uchod, sy'n bodoli er mwyn sicrhau tryloywder penderfyniadau ac sy'n caniatáu i bartïon allanol arsylwi gwrandawiadau parôl, yn bodloni egwyddorion cyfiawnder agored yn ddigonol. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod yr angen am gydbwysedd rhwng bod yn ddiffuant a sicrhau preifatrwydd a bod camau pellach y gellid eu cymryd er mwyn caniatáu mwy o dryloywder heb beryglu gonestrwydd y broses parôl.

23. Mantais yr amodau presennol ar gyfer arsylwyr yw eu bod yn caniatáu mynediad mewn modd rheoledig. Mae'n galluogi lleihau peryglon gan fod modd i'w presenoldeb fod yn amodol ar ystod o gyfyngiadau. Er enghraifft, mae'r fersiwn diweddaraf o ganllawiau polisi arsylwi'r Bwrdd Parôl yn nodi'n glir y gellir diddymu caniatâd arsylwr i fynychu gwrandawiad. Dywed hefyd na all arsylwr ddatgelu unrhyw wybodaeth am y gweithdrefnau heb ganiatâd blaenorol a dim ond am resymau proffesiynol neu reswm cysylltiedig â'r broses parôl y gallent fynychu.

24. Er bod y darpariaethau presennol ar gyfer arsylwyr yn darparu rhywfaint o ddiffuantrwydd ac yn caniatáu iddynt gael eu harchwilio, nid yw hyn yn cyfateb i wrandawiad cwbl gyhoeddus. Er mwyn i wrandawiad fod yn wirioneddol "gyhoeddus" mewn modd tebyg i wrandawiad Llys y Goron, credwn y byddai'n rhaid diddymu hawl y Bwrdd Parôl i atal unigolion rhag mynychu. Trafodir y materion ymarferol sy'n ymwneud â chynnal gwrandawiadau cyhoeddus, gan gynnwys lleoliad ffisegol y gwrandawiad, ymhellach ymlaen yn yr ymgynghoriad hwn.

25. Rydym wedi esbonio mai'r Bwrdd Parôl sy'n gyfrifol am benderfynu pwy all fynychu gwrandawiad fel arsylwr. Mae gan y Bwrdd ddogfen bolisi ar ganllawiau arsylwi sydd

wedi’i gyhoeddi ac sy’n nodi’r meini prawf (mae rhannau o’r canllawiau wedi’i hatal ac yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd). Fodd bynnag, mae’n bwysig tynnu sylw at y ffaith nad yw Rheolau presennol y Bwrdd Parôl yn eithrio unrhyw un yn benodol rhag arsylwi gwrandawiad ac yn ddamcaniaethol nid oes unrhyw gyfyngiadau ar nifer yr arsylwyr y gellir eu derbyn. O ganlyniad, efallai y byddwch yn teimlo bod y darpariaethau presennol yn ddigonol, neu gallent fod yn ddigonol pe diwygir naill ai’r Rheolau neu ganllawiau’r Bwrdd Parôl. Yn ogystal â hynny, gellid gwneud newidiadau ymarferol posibl er mwyn caniatáu mwy o arsylwyr (e.e. defnyddio technoleg fideo neu ffôn i osgoi’r angen i fynychu’n mewn person) a dileu’r angen am wrandawiadau cyhoeddus llawn o ganlyniad.

## A ddylai gwrandawiadau parôl fod yn agored i'r cyhoedd?

### Manteision posibl cynnal gwrandawiadau cyhoeddus

26. Pe bai opsiwn ar gyfer gwrandawiad cyhoeddus yn cael ei gyflwyno, yna byddem yn rhagweld system lle byddai gwrandawiadau'n parhau'n breifat oni bai bod un o’r partïon (y carcharor neu'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder) yn cyflwyno cais dros ei gynnal yn gyhoeddus i’r Bwrdd Parôl.

27. Byddai angen cyflwyno ceisiadau yn fuan yn ystod yr adolygiad parôl, cyn i unrhyw dystiolaeth gael ei hystyried. Byddai’r blaid nad yw’n cyflwyno’r cais yn cael y cyfle i gyflwyno eu sylwadau ar y mater a byddai angen i banel y Bwrdd Parôl ddod i benderfyniad. Disgwyliwn y byddai’n gwneud hynny yn unol â chanllawiau neu feini prawf cyhoeddedig. Pe caniateid gwrandawiad cyhoeddus, yna disgwyliwn y byddai angen cyhoeddi’r manylion fel bod aelodau o’r cyhoedd a’r cyfryngau yn ymwybodol ohono.

28. Byddai gan y Bwrdd Parôl hefyd y gallu i benderfynu bod modd i wrandawiad elwa o gael ei glywed yn gyhoeddus heb gais gan y partïon. Mewn achosion o’r fath, byddai angen gwahodd barn y partïon, ond, y Bwrdd Parôl a fyddai’n gyfrifol am y penderfyniad terfynol.

29. Prif gyfrifoldeb y Bwrdd Parôl yw diogelu’r cyhoedd a ni ddylent gyfarwyddo rhyddhad carcharor oni bai eu bod yn gwbl argyhoeddedig na allai achosi perygl na niwed difrifol. Ar y sail honno, dadleuir yn gryf bod penderfyniad parôl yn fater o ddiddordeb i’r cyhoedd a dylai’r penderfyniad felly fod mor ddiffuant a thryloyw a fo’n bosib er mwyn bodloni anghenion cyfiawnder agored. Mewn gwrandawiad cyhoeddus, gallai’r mynychwyr glywed tystiolaeth ac argymhellion y tystion proffesiynol a gweld sut mae’r panel y Bwrdd Parôl yn eu holi i archwilio a gwerthuso teilyngdod eu hargymhellion. Byddai hefyd yn caniatáu’r cyhoedd i glywed tystiolaeth y carcharor ei hun, gan gynnwys hanes eu troseddau a sut aethant ati tra yn y ddalfa i ddelio ag achos eu troseddau a lleihau’r perygl yr oeddent yn ei achosi.

30. Byddai gwrandawiadau agored yn caniatáu i'r cyhoedd, y cyfryngau a dioddefwyr gael gwell dealltwriaeth o sut a pham y daethpwyd i benderfyniad mewn manylder na ellir ei gyflawni drwy grynodeb ysgrifenedig o'r penderfyniad, sef yr hyn a ddarperir ar hyn o bryd. Gallai hyn fod yn werthfawr iawn, yn enwedig o safbwynt rhoi sicrwydd i ddioddefwyr bod y panel wedi archwilio'r holl dystiolaeth yn ofalus, gan gynnwys gofyn cwestiynau treiddgar i'r carcharor a thystion. Mae natur emosiynol y mathau o achosion dan sylw yn golygu nad oes modd osgoi gwrthwynebiad â phenderfyniadau i ryddhau carcharorion penodol. Fodd bynnag, drwy glywed yr holl dystiolaeth a gweld y ffordd y cynhaliwyd y gwrandawiad hyderwn y byddai pobl yn gwerthfawrogi'r rhesymau dros benderfyniad y Bwrdd a byddent yn sicr bod asesiad cynhwysfawr o berygl wedi'i gynnal. Gall hyn helpu i wrthbrofi rhai o'r camsyniadau cyffredin ynghylch parôl ac arwain at adroddiad cytbwys o achosion amlwg.

31. Nid yw'r rhan fwyaf o benderfyniadau a wneir gan y Bwrdd Parôl yn arwain at ryddhau'r carcharor (mae llai nag 1 o bob 4 o'r rhai a ystyrir bob blwyddyn yn cael eu rhyddhau) ac felly byddai gwneud penderfyniadau agored hefyd yn helpu i ddangos y rôl allweddol y mae'r Bwrdd Parôl yn ei chwarae o ran diogelu'r cyhoedd drwy wrthod rhyddhau carcharorion sy'n hynod debygol o achosi niwed pellach.

### Yr heriau a'r risgiau o gynnal gwrandawiadau cyhoeddus mewn achosion parôl

32. Er mwyn dod i benderfyniad hynod wybodus ym mhob achos, mae'n rhaid i'r Bwrdd Parôl archwilio gwybodaeth bersonol a sensitif iawn. Gallai rhyddhau'r wybodaeth honno i'r cyhoedd beryglu gallu'r troseddwr i ailintegreiddio'n ddiogel yn y gymuned. Yn ogystal gallai rhoi diogelwch corfforol y troseddwr, ei deulu a'i gymdeithion mewn perygl. Er enghraifft, efallai fod oedran neu lesgedd troseddwr yn effeithio ar ei allu corfforol i gyflawni troseddau pellach, neu fod cyflwr iechyd meddwl a gyfrannodd at ei ymddygiad troseddol wedi cael diagnosis cywir a bellach dan reolaeth. Yn y ddau achos, byddai angen i'r Bwrdd Parôl ystyried tystiolaeth feddygol o faterion personol iawn, megis eu gallu i ofalu am eu hunain neu sgil effeithiau meddyginiaeth.

33. Mae gwrandawiadau hefyd yn gofyn am drafodaethau manwl ynghylch ymddygiad ac amgylchiadau personol diweddar y carcharor yn y carchar a phan gyflawnodd ei drosedd (sy'n aml flynyddoedd ynghynt). Gall hyn gynnwys canlyniadau asesiadau seicolegol a gallai gyffwrdd â materion personol sensitif fel defnydd blaenorol o drais na adroddwyd amdano (a dioddefwyr ymddygiad o'r fath), tylwyth y troseddwr, camddefnydd o sylweddau neu arferion rhywiol a ffantasïau. Bydd rhai gwrandawiadau parôl yn cynnwys tystiolaeth graffig a fyddai'n peri gofid mawr i ddioddefwyr ac aelodau'r cyhoedd. Dylid datgelu gwybodaeth o'r fath pan fo angen yn unig. Yn ogystal, yng nghyd-destun parôl, gallai'r siawns o orfod trafod materion o'r fath yn gyhoeddus annog carcharor i gelu gwybodaeth neu gelwydd. Byddai hynny'n arwain at oblygiadau amlwg i ddibynadwyedd a diogelwch asesiad y Bwrdd Parôl o berygl a'u penderfyniad ynghylch rhyddhau carcharor.

34. Ar y llaw arall, gallai carcharorion geisio lliwio eu tystiolaeth er mwyn ceisio ennill cydymdeimlad a chefnogaeth y cyhoedd yn y gobaith o roi pwysau ar y Bwrdd Parôl i’w rhyddhau. Byddai perygl hefyd i droseddwyr “wneud ati” o flaen y camera, er enghraifft drwy gyhoeddi bygythiadau neu wneud datganiadau amhriodol gyda’r bwriad o achosi niwed a thrallod i ddioddefwyr, neu hyd yn oed geisio ymosod ar dystion neu aelodau’r panel pe baent yn bresennol yn gorfforol mewn gwrandawiad wyneb i wyneb. Gallai dioddefwyr neu aelodau o'r cyhoedd sy'n mynychu gwrandawiadau hefyd geisio tarfu ar yr achos. Ar hyn o bryd nid oes gan y Bwrdd Parôl unrhyw ddirmyg ar bwerau llys ond efallai y bydd angen pwerau o'r fath os caniateir presenoldeb cyhoeddus neu os caniateir arsylwyr i fynychu yn amlach.

35. Mae'r Bwrdd Parôl yn dibynnu'n fawr ar dystiolaeth ac argymhellion tystion arbenigol. Mae’r rhain yn cynnwys swyddogion carchar a phrawf sy'n ymwneud â rheoli dedfryd y troseddwr a chynllunio eu rhyddhad. Yn ychwanegol, gweithwyr proffesiynol eraill fel seicolegwyr, seiciatryddion, meddygon neu swyddogion o’r heddlu. Mae'n hanfodol bod tystion yn darparu tystiolaeth gywir, onest a didwyll. Fodd bynnag, gallai gwrandawiadau cyhoeddus beryglu eu parodrwydd i roi tystiolaeth o’r fath. Er enghraifft, mewn achosion amlwg neu emosiynol fel y rhai sy'n cynnwys plant fel dioddefwyr, gall tystion proffesiynol fod yn fwy amharod i argymell bod carcharor yn cael ei ryddhau os ydyn nhw'n ofni beirniadaeth neu aflonyddwch diesgus gan y cyfryngau neu'r cyhoedd. Mae posibilrwydd y gallai hyn arwain at gyflwyno argymhellion a phenderfyniadau gwrth-risg a allai beri carcharorion gael eu cadw yn y ddalfa heb fod agen.

36. Byddai'r rhain i gyd yn feysydd lle gallai'r Bwrdd Parôl gymhwyso ei arbenigedd proffesiynol a defnyddio'r gwrandawiad llafar er mwyn archwilio a yw tystion a'r carcharor yn rhoi tystiolaeth gywir a chynhwysfawr. Er y gallai hyn leihau effaith y materion hyn, byddai'n ychwanegu haen ychwanegol o anhawster a chymhlethdod i waith y Bwrdd Parôl.

37. Rhan allweddol o bob asesiad yw addasrwydd y cynllun rhyddhau ac yn benodol, y trefniadau byw a gweithio a gynigir i’r troseddwr os caiff ei ryddhau. Yn aml, bydd paneli yn trafod yn fanwl lle dylai troseddwr fyw ar ôl cael ei ryddhau a sut y byddai’r peryglon mae’n eu hachosi yn cael eu rheoli yno. Byddai trafod trefniadau rhyddhau yn gyhoeddus yn golygu bod y troseddwr, ac unrhyw un arall sy'n byw neu'n gweithio yn yr un adeilad, mewn perygl o gael eu haflonyddu, dioddef o niwed corfforol neu ymyrraeth gan y cyfryngau. Cafwyd enghreifftiau lle daeth y cyfryngau o hyd i garcharorion amlwg yn dilyn eu rhyddhad a chyhoeddwyd lluniau ohonynt a’u lleoliad. Gall digwyddiad o’r fath olygu y byddai’n rhaid symud y carcharor ar draul y cyhoedd. Mae hyn hefyd yn peryglu'r gallu’r troseddwr i ailsefydlu yn ôl yn y gymuned yn ddiogel ac yn llwyddiannus - gan o bosib cynyddu perygl i'r cyhoedd.

38. Mae'r holl heriau a pheryglon hyn yn dangos pam na ddylem ystyried agor gwrandawiadau parôl i'r cyhoedd ar chwarae bach a pham rydym o'r farn y dylai’r mwyafrif o wrandawiadau barhau yn breifat. Fodd bynnag, mae tryloywder a gwell dealltwriaeth y cyhoedd o'r broses barôl yn bwysig felly rydym am archwilio, a cheisio'ch barn ynghylch sut ac o dan ba amgylchiadau y gallai fod yn ddiogel ac yn briodol cynnal gwrandawiadau cyhoeddus.

39. Gall cyfyngu mynediad i rannau o'r gwrandawiad lle trafodir gwybodaeth sensitif neu bersonol fod yn ffordd o oresgyn nifer o'r materion a ddisgrifiwyd yn y paragraffau blaenorol. Byddai'n sicrhau bod tystiolaeth arbennig o sensitif neu bersonol yn parhau i gael gwrandawiad preifat yn ogystal â darparu diffuantrwydd a thryloywder llawer mwy na’r hyn a geir ar hyn o bryd. Byddai angen gwneud rhai newidiadau i'r ffordd y cynhelir gwrandawiadau. Er enghraifft, efallai y bydd angen rhyw fath o ‘gyn-wrandawiad’ preifat ymlaen llaw lle gallai’r partïon drafod a chytuno pa dystiolaeth a fydd yn cael ei ddatgan yn breifat neu’n gyhoeddus. Byddai'r dull hwn yn ychwanegu at gymhlethdod y broses o gynnal gwrandawiad felly ni fyddai heb ei heriau, ond byddai gennym ddiddordeb yn eich barn ynghylch a yw'n ddatrysiad ymarferol ai peidio.

40. Mae gan y Bwrdd Parôl bwerau presennol o fewn y Rheolau i orchymyn cuddio tystiolaeth benodol rhag y carcharor. Defnyddir y rhain ar gyfer Datganiadau Personol Dioddefwyr rhan fwyaf o’r amser ond hefyd ar gyfer clywed gwybodaeth sensitif megis deallusrwydd gan yr heddlu neu wasanaethau diogelwch a fyddai’n arwain at ddatgelu ymchwiliad cyfredol neu ffynonellau i’r carcharor. Opsiwn arall posibl fyddai defnyddio darpariaethau tebyg i'w gwneud yn ofynnol i arsylwyr beidio â datgelu gwybodaeth y tu allan i'r gwrandawiad heb ganiatâd ymlaen llaw. Fodd bynnag, gallai hyn olygu bod angen sefydlu cosb pe bai'r wybodaeth yn cael ei ddatgelu.

## A ddylai gwrandawiadau parôl fod yn agored i ddioddefwyr yn unig?

41. Rydym eisoes wedi amlinellu buddion posibl llacio'r cyfyngiadau ar bresenoldeb mewn gwrandawiadau parôl o ran darparu mwy o eglurder a gwella dealltwriaeth y cyhoedd ynghylch sut a pham y gwneir penderfyniadau parôl a’u hyder yn y broses. Byddai cynyddu mynediad at wrandawiadau hefyd yn cynorthwyo dioddefwyr i ddeall y broses yn llawn yn ogystal â chynyddu eu dealltwriaeth o’r dystiolaeth a ddefnyddir gan y Bwrdd Parôl i ddod i'w benderfyniadau. Gallai hefyd helpu dioddefwyr i benderfynu a ddylid gofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud cais am ail ystyriaeth ar eu rhan.

42. Anaml caiff carcharorion sy’n gymwys ar gyfer parôl eu rhyddhau ar y cyfle cyntaf. Byddant yna’n cael adolygiadau pellach bob dwy flynedd ar ôl eu hadolygiad cyntaf.

Pe bai dioddefwr yn arsylwi’r holl wrandawiadau yna byddent, dros nifer o flynyddoedd, yn gallu gweld cynnydd graddol y carcharor wrth iddynt gwblhau rhaglenni ymddygiad troseddol a cheisio lleihau eu siawns o aildroseddu yn ystod eu cyfnod yn y ddalfa. Gallai gweld eu datblygiad dros amser, yn ogystal â gweld sut y mae safbwyntiau’r Bwrdd Parôl yn newid o ganlyniad, roi ymdeimlad o “ddiweddglo” i ddioddefwr pan fydd carcharor yn cael ei ryddhau ar drwydded yn y pen draw.

43. Os newidir y rheolau, cynigiwn y dylai dioddefwyr allu wneud cais am gael arsylwi’r gwrandawiad trwy’r Ysgrifennydd Gwladol yn y lle cyntaf, fel bod modd iddynt gael y cyngor a’r gefnogaeth angenrheidiol gan eu Swyddog Cyswllt Dioddefwyr. Nid ydym yn credu y byddai’n ymarferol rhoi hawl awtomatig i ddioddefwyr fynychu gwrandawiad oherwydd erys achosion pan na fydd hynny’n briodol na chwaith yn ddiogel. O ganlyniad byddai angen adfer elfen o ddisgresiwn y Bwrdd Parôl.

44. Byddai caniatáu dioddefwyr yn unig fynychu gwrandawiadau yn lleihau neu’n atal nifer o’r problemau a ddisgrifir uchod mewn perthynas â chaniatáu mynediad cyhoeddus. Byddai caniatáu dioddefwyr i fynychu gwrandawiad yn gam sylweddol o ran sicrhau diffuantrwydd a thryloywder ond byddai eithrio’r cyfryngau a’r cyhoedd rhag mynychu yn golygu y byddai’r system barôl yn parhau i fod yn broses “gaeedig” i raddau helaeth.

45. Credwn y byddai llawer o ddioddefwyr yn croesawu’r cyfle i arsylwi gwrandawiad y Bwrdd Parôl yn llawn. Fodd bynnag mae perygl i hynny fod yn niweidiol. Yn aml, mae natur y dystiolaeth yn golygu bod yn rhaid i’r carcharor egluro ei ymddygiad a’i gymhelliant dros gyflawni’r drosedd a gallai hynny gynnwys disgrifiadau manwl am natur y trais neu anwireddau eraill a achoswyd i’r dioddefwr. Efallai y byddai’n anodd i’r dioddefwr wrando ar wybodaeth o’r fath. Byddai perygl i’r profiad fod yn un trawmatig i’r dioddefwr, yn arbennig os nad yw’r carcharor yn mynegi unrhyw edifeirwch ac yn parhau i bledio’n ddieuog.

46. Byddai angen cymryd gofal er mwyn sicrhau bod dioddefwyr yn cael eu paratoi a’u cefnogi’n ddigonol trwy gydol y broses. Rhaid pwyso a mesur y budd a ddaw o alluogi dioddefwyr i glywed y dystiolaeth yn erbyn yr effaith andwyol posib y gallai beri iddynt. Mae’n rhaid cofio hefyd, fel y trafodwyd uchod, bod perygl na fydd tystion a’r carcharor mor agored a gonest os byddai dioddefwr yno yn arsylwi’r achos. O ganlyniad, gallai hynny danseilio cywirdeb a gonestrwydd y dystiolaeth y seilir penderfyniadau’r Bwrdd Parôl arno.

47. Os bydd gwrandawiadau yn cael eu hagor i’r cyhoedd yna gallai’r perygl o niweidio dioddefwyr gynyddu. Er enghraifft, mewn rhai achosion, bydd y drosedd wedi digwydd flynyddoedd lawer yn ôl ac efallai y bydd y dioddefwr wedi dewis peidio datgelu manylion wrth ei ffrindiau, teulu, partner neu blant. Gallai cyhoeddi gwrandawiad yn y cyfryngau ddatgelu gwybodaeth bersonol sensitif am eu

dioddefaint a'u datgelu fel dioddefwr i bobl nad oedd yn ymwybodol o'r hanes cyn hynny (unigolion fel eu cydweithwyr). Efallai y byddai cynnwys Datganiad Personol y Dioddefwr hefyd yn sensitif ac efallai na fyddai'r dioddefwr eisiau ei rannu'n gyhoeddus. Gallai hynny atal rhai dioddefwr rhag darparu datganiad. Nid ydym am danseilio na cholli elfennau pwysig o'r achos parôl er mwyn bod yn fwy agored i'r cyhoedd. Dymuniad rhai dioddefwyr yw anghofio popeth am y drosedd ac ni fyddant yn ymuno â'r Cynllun Cyswllt Dioddefwyr. Gallai derbyn sylw gan y cyfryngau a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'u dioddefaint beri niwed mawr iddynt.

48. Gellid rhoi mesurau diogelwch ar waith i leihau'r peryglon i ddioddefwyr ac rydym eisoes wedi trafod y posibilrwydd o glywed rhannau o'r dystiolaeth drwy gamera neu gyflwyno pwerau newydd i'r Bwrdd Parôl a fyddai'n debyg i'r darpariaethau diffyg datguddio presennol. Fodd bynnag, byddai'r posibilrwydd o ddatgelu manylion yn ddamweiniol neu'n anfwriadol yn parhau.

## Ystyriaethau ymarferol

49. Mae hefyd angen ystyried trefniadau ymarferol cynnal gwrandawiad cyhoeddus mewn achosion parôl. Yn 2019/20, cynhaliodd y Bwrdd Parôl 8,264 o wrandawiadau llafar. Gellir cynnal gwrandawiadau ar ffurf person yn y carchar. Mae'r troseddwr yn cael ei gadw neu ei ddal o bell a bydd pawb yn mynychu trwy fideo neu dulliau telegynadledda. Cyn pandemig Covid-19, cynhaliwyd mwyafrif helaeth y gwrandawiadau llafar ar ffurf person. Rydym yn rhagweld y bydd gwrandawiadau wyneb yn wyneb yn dychwelyd, ond efallai na fydd cymaint ohonynt a bydd mwy o wrandawiadau yn cael eu cynnal mewn ffyrdd rhithiol yn y dyfodol.

50. Ychydig iawn o garchardai, os o gwbl, a fyddai â'r adnoddau i gynnal gwrandawiadau cyhoeddus ar ffurf person lle gallai aelodau'r cyhoedd fod yn bresennol i arsylwi fel y gallent mewn oriel gyhoeddus yn y llysoedd. Bydd o leiaf chwech yn bresennol yn y mwyafrif o wrandawiadau (tri aelod o banel y Bwrdd Parôl, y carcharor, eu cynrychiolydd cyfreithiol a'r Rheolwr Troseddwyr). O fewn nifer o achosion ceir hefyd dystiolaeth gan seicolegwyr mewnol y carchar a rhai allanol, staff carchardai a chynrychiolydd yr Ysgrifennydd Gwladol neu'r dioddefwr. Mae'r tystion, ac eithrio'r dioddefwr, fel arfer yn bresennol ar gyfer y gwrandawiad cyfan fel y gallent glywed yr holl dystiolaeth. Yn nodweddiadol, ystafelloedd cyfarfod pwrpasol mewn carchardai yw'r ystafelloedd a ddefnyddir ar gyfer gwrandawiadau ac yn y rhan fwyaf o achosion byddai'n anodd cynnwys mwy nag un neu ddau o arsylwyr ychwanegol ynddynt mewn modd ddiogel.

51. Byddai diffyg cyfleusterau hefyd yn broblem mewn llawer o garchardai. Er enghraifft, nid oes ganddynt ystafelloedd aros pwrpasol cyfforddus felly byddai'n anodd cadw arsylwyr, tystion a'r carcharor ar wahân cyn neu yn dilyn gwrandawiad.

52. Mae’n amlwg y byddai gwrandawiad ar gyfer carcharor amlwg yn denu dwsinau neu efallai gannoedd o geisiadau arsylwi pe bai'n agored i'r cyhoedd. O ganlyniad i hynny gallai greu her sylweddol i'r Bwrdd Parôl a'r carchar o safbwynt dewis pwy a fyddai’n cael mynychu. Byddai gwrandawiadau cyhoeddus yn denu ceisiadau gan ddioddefwyr a byddai'n anodd iawn i'r Bwrdd Parôl beidio â'u blaenoriaethu dros eraill. O'r herwydd, byddai gwrandawiadau cwbl gyhoeddus bron yn amhosibl i’w cynnal mewn carchar oherwydd diffyg lle yn ogystal â'r heriau a pheryglon diogelwch amlwg y byddai’n achosi. Byddai hefyd angen cwestiynu pwy fyddai Llywodraethwyr neu Gyfarwyddwyr carcharorion yn fodlon eu derbyn i’r carchar o ystyried mai nhw yn unig sy'n gyfrifol am gynnal trefn a diogelwch y tu mewn i’r sefydliadau.

53. Gallai cynnal rhai gwrandawiadau mewn adeiladau mwy, fel adeiladau llys, ddarparu mwy o le i arsylwyr a chyfleusterau gwell. Fodd bynnag, byddai'r dull hwnnw'n achosi peryglon gwahanol. Byddai’n rhaid darparu manylion y gwrandawiad ymlaen llaw er mwyn gwahodd presenoldeb cyhoeddus. Golyga hyn y byddai pawb sydd â diddordeb, y cyhoedd a'r cyfryngau wedi’u hysbysu ymlaen llaw ynghylch symudiadau’r carcharor (h.y. y dyddiadau, y gyrchfan ac, yn fras, yr amseroedd teithio i'r lleoliad ac oddi yno) a allai o bosibl hwyluso ymosodiad ar garcharor neu ymgais i ddianc. Mae peryglon o'r fath eisoes yn bodoli pan fydd carcharorion yn cael eu cludo at ddibenion eraill, gan gynnwys ymddangosiadau llys. Er mai prin iawn yw’r problemau, byddai costau diogelwch, ariannol ac adnoddau sylweddol er mwyn medru cynnal gwrandawiadau allanol yn y modd hwn.

54. Yn ein barn ni, atebion technolegol, megis darlledu'r achos i leoliad ar wahân neu eu ffrydio ar-lein fyddai'r dull mwyaf ymarferol o gyflwyno gwrandawiadau cyhoeddus. Byddai'r rhain yn goresgyn rhwystrau corfforol gwrandawiadau cyhoeddus. Fodd bynnag, byddai'r pryderon ynghylch preifatrwydd a goblygiadau niweidiol eraill cynnal achos cyhoeddus yn parhau. Gallent hyd yn oed gael eu gwaethygu mewn rhai amgylchiadau. Er enghraifft, byddai gwrandawiad wedi'i ffrydio neu ei ddarlledu yn ei gwneud hi'n haws i ddelweddau o fynychwyr gael eu dal a'u rhannu gan y wasg neu'r cyhoedd trwy'r cyfryngau cymdeithasol, a thrwy hynny gynyddu'r risg o adnabod ac aflonyddu. Gallai hefyd ganiatáu mynychwyr recordio a golygu clipiau o'r gwrandawiad mewn modd a fyddai’n camliwio tystiolaeth unigolyn yn fwriadol. Un ffordd posib o liniaru’r perygl hwnnw fyddai darlledu’r achos mewn dull rheoledig trwy ei gwneud yn ofynnol i arsylwyr fynd i leoliad penodol i weld y gwrandawiad fel adeilad llys neu ganolfan gynadledda. Byddai hyn yn galluogi arsylwi ymddygiad arsylwyr a chyflwyno cyfyngiadau megis atal defnyddio ffonau symudol yn ystod y gwrandawiad. Fodd bynnag gallai hynny hefyd gyfyngu’r niferoedd a allai fynychu.

# Holiadur

Byddem yn croesawu eich atebion i'r cwestiynau isod.

**C1. A ydych yn cytuno y dylai gwrandawiadau parôl barhau yn breifat yn gyffredinol ond gyda'r posibilrwydd o gynnal gwrandawiadau cyhoeddus mewn rhai amgylchiadau cyfyngedig penodol?**

**C2. Pa rai o'r grwpiau isod y dylai gael mynychu gwrandawiadau:**
- **a. A ddylai dioddefwyr allu mynychu?**
- **b. A ddylai gwrandawiadau fod yn agored i'r cyhoedd?**
- **c. A ddylai gwrandawiadau fod yn agored i'r cyfryngau?**
- **ch. Yn eich barn chi, pwy arall ddylai allu mynychu gwrandawiadau (os unrhyw un)?**

**C3. O dan ba amgylchiadau y byddai gwrandawiad cyhoeddus yn addas neu'n ychwanegu gwerth at y broses parôl?**

**C4. O dan ba amgylchiadau byddai gwrandawiad cyhoeddus yn amhriodol?**

**C5. Pa faen prawf y dylid eu defnyddio i benderfynu a ddylid cynnal gwrandawiad cyhoeddus?**

**C6. Sut y dylai safbwynt dioddefwr gael ei ystyried wrth benderfynu a ddylid cynnal gwrandawiad cyhoeddus?**

**C7. A ydych chi'n credu y byddai cynnal gwrandawiad cyhoeddus yn gwaethygu neu'n gwella'r broses o arolygu'r dystiolaeth neu wneud penderfyniadau, a pham?**

**C8a. Pa fesurau neu ddulliau a fyddai eu hangen er mwyn osgoi neu liniaru unrhyw effaith niweidiol yn dilyn cynnal gwrandawiad cyhoeddus?**

**C8b. Pa effaith a fyddai mesurau o'r fath yn ei gael ar effeithlonrwydd neu effeithiolrwydd y broses parôl?**

**C9a. Pa un o'r opsiynau ar gyfer lleoliad/dull ar gyfer cynnal gwrandawiad cyhoeddus (h.y. wyneb yn wyneb yn y carchar neu mewn llys, ei ddarlledu i leoliad ar wahân neu ei ffrydio ar lein) sydd fwyaf addas yn eich barn chi a pham?**

**C9b. A allwch chi awgrymu unrhyw opsiynau eraill a fyddai'n hwyluso gwrandawiadau cyhoeddus?**

**C10. Yn eich barn chi, beth fyddai effaith pob un o'r opsiynau ar gyfer diwygio a gynigir ar gydraddoldeb unigolion sydd â nodweddion gwarchodedig? Rhowch resymau os gwelwch yn dda.**

**C11. A oes unrhyw resymau allweddol dros gynnal gwrandawiadau parôl cyhoeddus neu unrhyw fuddion allweddol iddynt nad ydym eisoes wedi'u nodi yn yr ymgynghoriad hwn y dylem geisio eu cyflawni?**

**C12. Pe bai gwrandawiad yn cael ei gynnal yn gyhoeddus, a oes unrhyw beryglon neu oblygiadau na amlygwyd eisoes yn yr ymgynghoriad hwn y byddai angen eu hystyried?**

**Diolch am gyfranogi yn yr ymgynghoriad hwn.**

# Amdanoch chi

Defnyddiwch yr adran hon i ddisgrifio chi eich hunan os gwelwch yn dda.

| | |
|---|---|
| **Enw llawn** | |
| **Teitl swydd** neu'r rôl yr ydych yn ei chwarae wrth ymateb i'r ymgynghoriad hwn (e.e aelod o'r cyhoedd ac ati) | |
| **Dyddiad:** | |
| **Enw cwmni neu sefydliad (os yn berthnasol):** | |
| **Cyfeiriad** | |
| | |
| **Cod post** | |
| Os hoffech i ni gydnabod ein bod wedi derbyn eich ymateb, ticiwch y bocs hwn: | ☐ (ticiwch y bocs os gwelwch yn dda) |
| Y cyfeiriad y dylem yrru'r gydnabyddiaeth, os yw'n wahanol i'r uchod: | |
| | |
| | |

**Os ydych yn cynrychioli grŵp, a fyddai'n bosib i chi nodi enw y grŵp hwnnw a'r bobl neu'r sefydliadau yr ydych yn ei gynrychioli, os gwelwch yn dda.**

# Manylion cyswllt/Ffyrdd o ymateb

Os gwelwch yn dda, gyrrwch eich ymateb erbyn 1af o Ragfyr i:

**Ymgynghoriad Parôl**
Y Weinyddiaeth Gyfiawnder
Polisi Mechnïaeth, Dedfrydu a Rhyddhau
10fed Llawr, 10.21
102 Petty France
Llundain SW1H 9AJ

**E-bost**: paroleboardreview@justice.gov.uk

**Ffafriwn ymatebion drwy e-bost.**

## Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych unrhyw gwynion neu sylwadau ynghylch y broses ymgynghori dylech gysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder drwy'r cyfeiriad uchod.

## Copïau ychwanegol

Gellir cyrchu copïau pellach o'r ymgynghoriad hwn o'r cyfeiriad uchod ac ar-lein os ewch i https://consult.justice.gov.uk/.

Gellir gofyn am y cyhoeddiad hwn mewn fformat gwahanol drwy gysylltu â paroleboardreview@justice.gov.uk.

## Cyhoeddi ymatebion

Cyhoeddir papur a fydd yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn erbyn 31 Rhagfyr 2020. Bydd y papur ar gael ar-lein yn https://consult.justice.gov.uk/.

## Grwpiau cynrychioliadol

Gofynnwn i grwpiau cynrychioliadol sy'n ymateb ddarparu disgrifiad cryno o'r bobl a'r sefydliadau y maent yn eu cynrychioli.

## Cyfrinachedd

Trwy ymateb i'r ymgynghoriad hwn, rydych yn cydnabod y bydd eich ymateb, ynghyd â'ch enw / hunaniaeth gorfforaethol yn cael ei gyhoeddi yng nghyhyhoeddiad yr Adran o’r ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Mae hyn yn unol â chyfundrefnau mynediad at wybodaeth (yn bennaf Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 2018, y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Er budd tryloywder, cred y Llywodraeth ei bod yn bwysig galluogi’r cyhoedd i weld ymatebion i ymgynghoriadau’r Llywodraeth a’r farn ohonynt. Yn ogystal, os byddwch chi'n newid eich meddwl yn ddiweddarach ac yn dymuno i’ch ymateb a’ch manylion gael eu 'anghofio' o dan ddeddfwriaeth diogelu data, gall yr Adran ddewis peidio â thynnu'ch enw / manylion o'ch ymateb os yw’n credu ei fod o fantais i’r cyhoedd gael gweld y manylion hynny. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw / hunaniaeth gorfforaethol gael ei gyhoeddi yn y modd hwn yna cynghorwn ni chi i ddarparu ymateb mewn modd anhysbys (er enghraifft, drwy ddisgrifio’ch hunan fel ‘perchennog busnes lleol’, ‘aelod o'r cyhoedd’). Fel arall, gallwch ddewis peidio ag ymateb.

# Cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg

O dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus sy'n ffurfio rhan o'r Ddeddf Cydraddoldeb 2019 mae gofyn i Weinidogion a llunwyr polisi'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ystyried effaith cynigion polisi ar gydraddoldeb mewn perthynas â'r pwyntiau dilynol:

(a) ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac ymddygiadau gwaharddedig eraill yn ôl Deddf Cydraddoldeb 2010;

(b) hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng gwahanol grwpiau o gobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt; a

(c) maethu perthnasau da rhwng gwahanol unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac unigolion nad ydynt yn ei rannu.

Er mwyn hysbysu ymatebion i'r ddogfen ymgynghori hon, rydym wedi cyhoeddi dogfen ar wahân gyda Datganiad Cydraddoldeb y dylid ei ddarllen ar y cyd gyda chynnwys y ddogfen ymgynghori hon.

Mae'r Datganiad Cydraddoldeb yn ystyried effeithiau posibl ein cynigion yn unol â nodweddion gwarchodedig sef oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhywedd a gogwydd rhywiol.

Rydym wedi gofyn cwestiwn ynghylch cydraddoldeb yn y papur hwn (Cw.10). Rydym yn croesau sylwadau ynghylch cywirdeb a graddau'r effeithiau a adnabyddwn. Croesawn yn arbennig ymatebion gan unigolion sy'n ystyried eu bod yn rhannu nodwedd warchodedig neu'n ffurfio grwpiau sy'n cynrychioli unigolion gyda nodwedd gwarchodedig. Bydd yr ymatebion a dderbynnir yn cael eu hystyried wrth i'r Llywodraeth benderfynu ar y ffordd orau ymlaen yn dilyn y cyfnod ymgynghori.

Y ddogfen hon yw'r fersiwn Cymraeg o'r ddogfen ymgynghori a addawyd.

# Egwyddorion ymgynghori

Nodir egwyddorion y mae adrannau’r Llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill yn gorfod eu mabwysiadu wrth ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth yn Egwyddorion Ymgynghori Swyddfa’r Cabinet 2018. Gellir eu cyrchu o’r ddolen isod: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/691383/Consultation_Principles__1_.pdf

OGL

**© Hawlfraint y goron 2020**

Mae'r cyhoeddiad hwn yn un trwyddedig o dan amodau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. Os am weld y drwydded hon ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Yn y mannau lle nodom unrhyw wybodaeth ynghylch hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi ofyn caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw.